**Pwyllgor Diwylliant CC 13-02(P.4)**

Dyddiad: 27 Mehefin 2002

Amser: 2.00 - 4.00pm

Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 2, Cynulliad Cenedlaethol Cymru

## Adroddiad Terfynol Drafft ar Adolygiad Pum Mlynedd o Lyfrgell Genedlaethol Cymru

### Diben

1. Ymgynghori â’r Pwyllgor ar Adroddiad Terfynol drafft Adolygiad Pum Mlynedd o Lyfrgell Genedlaethol Cymru. Mae Rheol Sefydlog 9.7 yn darparu y dylai’r pwyllgorau pwnc adolygu’n rheolaidd sut y cyflawnir swyddogaethau cyhoeddus yn eu meysydd gan gyrff cyhoeddus. Ar ôl derbyn yr Adroddiad Terfynol a sylwadau’r Pwyllgor, bydd y Gweinidog dros Ddiwylliant yn cynghori’r Cabinet ar ganfyddiadau’r Adroddiad ac yna’n cyhoeddi ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru. Y bwriad yw y bydd cyfle wedyn i gynnal dadl mewn Cyfarfod Llawn cyn y caiff yr adolygiad ei gwblhau'n derfynol.

### Argymhelliad

2. Bod y Pwyllgor yn rhoi ei sylwadau ar ganfyddiadau’r Adroddiad Terfynol drafft yn Atodiad A. Nodir y Cylch Gorchwyl yn Atodiad 5 yr Adroddiad.

### Cefndir

3. Cafodd Adolygiad Pum Mlynedd o Lyfrgell Genedlaethol Cymru ei gomisiynu’n ffurfiol gan y Gweinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Iaith Gymraeg a’r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau ym mis Chwefror eleni, yn dilyn ymgynghori â’r Pwyllgor ynghylch y Cylch Gorchwyl.

4. Cynhaliwyd yr Adolygiad gan GCL Management Consultants, a chanlyniad cam cyntaf yr Adolygiad oedd Adroddiad Interim a gyflwynwyd i’r Pwyllgor ym mis Mai. Yn dilyn hynny, cytunodd y Gweinidog dros Ddiwylliant a’r Gweinidog dros Gyllid ar yr argymhelliad allweddol (1) y dylid cadw'r Llyfrgell fel corff unigol sy'n cael ei ariannu gan Gorff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad fel sy'n digwydd ar hyn o bryd. Hefyd comisiynodd y ddau Weinidog ail gam yr Adolygiad, er mwyn ymdrin ag effeithiolrwydd strategol a llywodraethu corfforaethol y Llyfrgell.

**Yr Adroddiad Terfynol**

5. Amgaeir yr Adroddiad Terfynol drafft yn Atodiad A. Mae’n gwneud 53 o argymhellion, a nodir yn y Crynodeb Gweithredol (tt 6-10). Mae canfyddiadau'r adolygiad yn dilyn ymgynghoriad eang gyda budd-ddeiliaid a phartneriaid yn ogystal â'r Llyfrgell yn fewnol. Casgliad cyffredinol yr adroddiad yw bod y Llyfrgell yn gwneud cynnydd da, wedi ymgymryd ag agenda tra phwysig o newid mewn sawl maes. Mae'r Llyfrgell wedi cyflawni'r amcanion meintiol a osodwyd ar ei chyfer ac wedi gwneud cynnydd sylweddol o ran yr amcanion nad oeddent wedi'u meintioli. Mae'r adroddiad hefyd yn edrych ar lywodraethu corfforaethol a chanfuwyd bod trefniadau'n ymwneud ag arian a rheolaeth yn foddhaol a'r adroddiadau archwilio ar y cyfan yn galonogol.

6. Fel gydag unrhyw sefydliad, gellid cryfhau rhai agweddau ar y modd y mae’n gweithredu. Daeth nifer o themâu pwysig i'r amlwg o'r argymhellion: gellid defnyddio'r broses gynllunio'n well a thrwy hynny osgoi unrhyw sgôp ar gyfer strategaethau mewn rhannau gwahanol o'r Llyfrgell yn mynd i drafferthion; yr angen i reoli'n ofalus y mannau sydd dan bwysau yn y Llyfrgell (crybwyllir yr Adran Gyfrifiaduron y benodol); a, sicrhau cydweithredu proffesiynol yn y dull mwyaf defnyddiol ac effeithiol. Mae 8 argymhelliad allweddol, sydd, yn ychwanegol at y pwyntiau a godwyd uchod, yn tynnu sylw at yr angen i ddatblygu hyfforddiant staff a chreu presenoldeb o fewn grwpiau targed allanol.

**Cydymffurfio**

7. Cynhaliwyd yr Adolygiad yn unol â’r canllawiau cyhoeddedig ar Adolygiadau Pum Mlynedd. Yn ogystal â’r ffaith iddo gyfrannu at yr Adolygiad, ymgynghorwyd ag Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru ar bob mater ffeithiol.

**Camau i’w cymryd gan y Pwyllgor**

8. Gofynnir i’r Pwyllgor roi sylwadau ar yr Adroddiad Terfynol drafft cyn y caiff ei gyflwyno i’r Gweinidogion.

**Pwynt cyswllt**

Yr Is-adran Cynllunio Ariannol